Estyn

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad arolygiad monitro blynyddol ar

# Dŷ Bronllys

**Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2017**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2017: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 09/05/2017**

## Cyd-destun

Ysgol annibynnol arbennig mewn lleoliad gwledig ger pentref Bronllys ym Mhowys yw Tŷ Bronllys.  Mae'r ysgol yn darparu addysg ar gyfer disgyblion rhwng 8 ac 19 oed sydd wedi cael diagnosis o anhwylder y sbectrwm awtistig (ASA).

Mae gan yr ysgol dir helaeth sy'n ddiogel ac yn rhoi amrywiaeth o gyfleoedd i ddisgyblion ar gyfer gweithgareddau awyr agored.  Mae offer chwarae yn yr awyr agored yn fodern ac yn berthnasol i ddiddordebau'r disgyblion.  Mae gan yr ysgol ysgubor eang sy'n darparu lle mawr ar gyfer gweithgareddau pan fydd y tywydd yn wael.

Mae wyth disgybl yn mynychu'r ysgol ar hyn o bryd.  Mae pob un o'r disgyblion yn fechgyn ac maent i gyd wedi cael eu lleoli gan awdurdodau lleol yng Nghymru.  Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn byw yn y cartref cofrestredig i blant ar y safle.  Mae gan bob disgybl ddatganiad o anghenion addysgol arbennig.

## Prif ganfyddiadau

### Cryfderau

Gall disgyblion fynd at eu targedau dysgu yn hawdd trwy ystod o gyfryngau, gan gynnwys cardiau targed y gallant eu cario gyda nhw trwy'r dydd a chodau sicrhau ansawdd y gellir mynd atynt drwy gyfrifiaduron llechen electronig.  Mae hyn yn golygu bod blaenoriaeth fawr yn cael ei rhoi i dargedau disgyblion ym mhob gweithgaredd addysgol.

Mae gan yr ysgol ddiwylliant cryf o hunanwelliant.  Mae'n ymateb yn gyflym iawn i fodloni argymhellion Estyn.  Mae staff yn gwneud y mwyaf o gyfleoedd gwerthfawr i ymweld â darparwyr eraill o fewn y cwmni, a'r tu allan, a'u harsylwi.  Mae staff yn cyfarfod yn rheolaidd i nodi anghenion disgyblion unigol ac ymateb iddynt, er mwyn gwneud yn siŵr bod y cwricwlwm a'r amgylchedd dysgu yn effeithiol o ran cefnogi anghenion disgyblion.

Mae'r ysgol yn gweithio'n effeithiol i nodi cyrchfannau disgyblion.  Mae hyn yn galluogi'r ysgol i ddatblygu cynlluniau cyrchfannau unigol sydd wedi'u teilwra i fodloni anghenion disgyblion yn dda iawn.  Er enghraifft, mae'r ysgol yn addasu'r cwricwlwm i fodloni anghenion disgyblion sy'n mynd i fyw mewn tai â chymorth, gan ganiatáu amser priodol iddynt ddatblygu medrau byw yn annibynnol.

Gall disgyblion elwa'n rheolaidd ar ystod eang o ymyriadau therapiwtig, gan gynnwys therapi cerddoriaeth, therapi galwedigaethol a therapi cyflenwol.  Caiff disgyblion eu hasesu'n rheolaidd a chynllunnir therapïau i fodloni anghenion unigol penodol.  Mae pob un o'r disgyblion yn elwa ar y ddarpariaeth lleferydd ac iaith.

## Meysydd i'w datblygu

Yn 2014, gwnaeth yr ysgol gais i wneud newid perthnasol i gynyddu niferoedd ac ystod oedran y disgyblion y gall eu haddysgu. Mae'r ysgol wedi addasu'r addysgu'n dda i fodloni anghenion disgyblion unigol yng nghyfnod allweddol 2. Fodd bynnag, mae cynllunio'r cwricwlwm ar gyfer cyfnod allweddol 2 yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd, ac nid yw'n darparu strwythur clir ar gyfer y ddarpariaeth eto.

Mae gan yr ysgol amserlen drylwyr o arsylwadau gwersi. Mae'r rhain yn cynnwys ffocws priodol ar addysgu ac adnoddau ac yn arwain at ddatblygiad perthnasol i'r staff. Fodd bynnag, nid yw arsylwadau gwersi yn canolbwyntio'n ddigon da ar gynnydd a chyflawniadau dysgwyr yn y dosbarth ac yn erbyn amcanion gwersi yn gyson.

Mae adroddiad hunanarfarnu (AHA) yr ysgol yn ddogfen realistig sy'n adlewyrchu'r ysgol yn dda. Fodd bynnag, ni chaiff bob un o'r staff ddigon o gyfleoedd i gyfrannu at y broses hunanarfarnu.

## Argymhellion

A1 Datblygu cynllun cwricwlwm cyfnod allweddol 2 i ddarparu strwythur clir ar gyfer y ddarpariaeth

A2 Diwygio'r broses hunanarfarnu i wneud yn siŵr bod pob un o'r staff yn cael cyfleoedd priodol i gyfrannu

A3 Gwneud yn siŵr bod arsylwadau gwersi yn cynnwys ffocws addas ar ddysgwyr a dysgu

## Cynnydd wrth fynd i'r afael ag argymhellion o nodyn ymweliad neu adroddiad arolygiad blaenorol

**Argymhelliad 1: Datblygu rôl cydlynwyr y cwricwlwm**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn llawn.

Mae'r ysgol wedi datblygu rolau a chyfrifoldebau clir ar gyfer cydlynwyr y cwricwlwm. Mae'r ysgol yn sicrhau ansawdd y rolau fel rhan o gyfarfodydd misol gyda dirprwy benaethiaid yr ysgol. Caiff cydlynwyr y cwricwlwm gyfleoedd defnyddiol iawn i ymweld â darparwyr eraill o fewn y cwmni, a'r tu allan. O ganlyniad i'r rolau newydd hyn, mae cwricwlwm yr ysgol wedi dod yn fwy hyblyg i addasu'n gyflym yn unol â newidiadau i fodloni anghenion disgyblion.

**Argymhelliad 2: Gwella'r amgylchedd dysgu i sicrhau bod yr ystafelloedd dosbarth yn darparu lle priodol i fodloni anghenion cymhleth y disgyblion yn llawn**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn llawn.

Mae'r ysgol wedi gwneud newidiadau sylweddol i sicrhau bod holl feysydd yr ysgol yn gallu cael eu defnyddio er budd y disgyblion. Datblygwyd meysydd penodol i fodloni anghenion disgyblion unigol. Gellir addasu'r rhan fwyaf o feysydd yn hawdd wrth i anghenion disgyblion newid. O ganlyniad, mae rhai disgyblion a oedd yn cael trafferth â throsglwyddo i'r ysgol wedi ymgynefino'n hawdd ac wedi integreiddio'n dda mewn grwpiau a dosbarthiadau. Mae gan yr ysgol ethos o ddatblygiad parhaus ac mae offer newydd fel treiciau a thrampolîn wedi darparu ystod ehangach o gyfleoedd yn yr awyr agored ar gyfer disgyblion.

**Argymhelliad 3: Gwella ansawdd cynlluniau addysg unigol disgyblion fel y gall disgyblion gymryd mwy o ran mewn asesu eu cynnydd eu hunain**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn llawn.

Mae'r ysgol wedi addasu cynlluniau addysg unigol (CAUau) disgyblion yn effeithiol iawn i alluogi disgyblion i gymryd rhan mewn asesu eu cynnydd mewn dysgu. Mae CAUau yn addas ar gyfer disgyblion erbyn hyn, gyda thargedau sy'n hawdd eu darllen a system olrhain gynhwysfawr y mae disgyblion yn ei defnyddio ar ddiwedd pob gwers. Mae disgyblion yn olrhain eu cynnydd mewn dysgu trwy fyrddau targed rhyngweithiol sy'n darparu arddangosiad gweledol clir o'u cyflawniadau.

## Cydymffurfio â'r safonau ar gyfer cofrestru

**Safon 1: Ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth i ddangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

**Safon 2: Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth i ddangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

**Safon 3: Lles, iechyd a diogelwch disgyblion**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth i ddangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

**Safon 4: Addasrwydd perchnogion a staff**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth i ddangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

**Safon 5: Eiddo a llety preswyl mewn ysgolion**

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 5.

**Safon 6: Darparu gwybodaeth**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth i ddangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

**Safon 7: Y modd yr eir i'r afael â chwynion**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth i ddangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

## Argymhelliad ynghylch cofrestru

Wrth ystyried cofrestriad yr ysgol hon, gallai Cynulliad Cenedlaethol Cymru ddymuno ystyried yr argymhelliad canlynol:

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth i ddangos nad yw'r ysgol yn bodloni gofynion Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003.

Ni ddylai barnau arolygwyr ar yr arolygiad monitro blynyddol hwn niweidio canfyddiadau arolygiad Adran 163 llawn yn y dyfodol.

## Gwybodaeth am yr ysgol

| | |
|---|---|
| **Ysgol** | Tŷ Bronllys |
| **Rhif yr ysgol** | 6666047 |
| **Diben yr ymweliad** | Arolygiad monitro blynyddol |
| **Dyddiad yr ymweliad** | 01/03/2017 |
| **Perchennog** | Orbis Education and Care Ltd |
| **Staff** | 1 cyfarwyddwr addysg, 1 dirprwy bennaeth, 2 athro dosbarth, 3 chynorthwyydd cymorth dysgu amser llawn ac 1 cynorthwyydd cymorth dysgu rhan-amser (10 awr) |
| **Nifer y disgyblion** | 8 |
| **Darpariaeth** | Dydd a phreswyl |
| **Math o angen addysgol arbennig y mae'r ysgol yn darparu ar ei gyfer** | Anhwylder y sbectrwm awtistig |
| **Arolygiad Adran 163 diwethaf** | 03/10/2011 |
| **Arolygiad monitro blynyddol diwethaf** | 06/07/2015 |
| **Arolygiad diwethaf gan AGGCC** | Cofnodwch destun |

## Gwybodaeth am y tîm

| | |
|---|---|
| Mrs Gill Sims | Arolygydd Cofnodol |
| Ms Elizabeth Ann Dackevych | Arolygydd Tîm |